| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR LLAWN** |
| **DYDDIAD** | **2 MAWRTH 2017** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **CALENDR PWYLLGORAU 2017/18** |
| **PWRPAS** | **MABWYSIADU CALENDR PWYLLGORAU 2017/18** |
| **AWDUR** | **GERAINT OWEN**<br>**PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Yn ystod y broses o lunio Calendr Pwyllgorau y Cyngor ar gyfer 2017/18, rhoddwyd gwahoddiad i aelodau etholedig drwy *Rhaeadr* i ddatgan eu barn am amserlennu cyfarfodydd pwyllgorau'r Cyngor ar gyfer 2017/18.

1.2 Bwriad hyn oedd ceisio sicrhau fod y Cyngor yn rhoi cyfle i bawb i fod yn rhan o'r broses ddemocrataidd, gan felly wneud pob ymdrech i sicrhau fod cyfarfodydd yn cael eu cynnal mewn lleoliadau addas ac ar amseroedd rhesymol er mwyn cynorthwyo aelodau i gyflawni eu rôl yn effeithiol.

Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau mewn ymateb i'r cais yn *Rhaeadr* hyd yma.

1.3 Sefydlodd y Pwyllgor Archwilio Is-grŵp bychan o Aelodau Archwilio, Craffu a Cabinet er ymateb i'r feirniadaeth ar y drefn Craffu. Yn ei gyfarfod ar 9 Chwefror 2017, penderfynodd y Pwyllgor Archwilio argymell drefn o un Pwyllgor Craffu ar gyfer tymor newydd y Cyngor o fis Mai, 2017, gyda chyfres o ymchwiliadau.

1.4 Mae Calendr Pwyllgorau'r Cyngor ar gyfer 2017/18 yn adlewyrchu argymhelliad y Pwyllgor Archwilio o un Pwyllgor Craffu. Noder fod y Cyngor llawn hefyd yn trafod ac yn penderfynu ar y drefn craffu yn derfynol ar gyfer 2017/18.

1.5 Bu ymgynghori ar fersiwn drafft calendr Pwyllgorau 2017/18 y Cyngor gyda Pharc Cenedlaethol Eryri er mwyn sicrhau nad oedd gwrthdaro rhwng cyfarfodydd y ddau sefydliad.

## 2. CALENDR PWYLLGORAU 2017/18

2.1. Cyflwynir trosodd galendr ar gyfer dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2017/18.

2.2. Dyma'r dyddiadau yr ydym yn rhaglennu ar hyn o bryd, gall fod angen cyfarfodydd eraill er mwyn gweithredu busnes y Cyngor.

## 3. Hyfforddiant Aelodau

3.1 Mae yna rai dyddiadau hyfforddiant yn gwrthdaro â chyfarfodydd eraill. I ddod dros yr anhawster y bydd aelodau yn methu mynychu sesiynau hyfforddiant oherwydd y broblem uchod, ceisiwyd gosod mwy nag un cynnig ar gyfer y sesiynau hyfforddiant penodol hynny.

## 4. ARGYMHELLIAD

Gofynnir I'r Cyngor fabwysiadu y Calendr Pwyllgorau yn derfynol.